OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1350 (Cy.126)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*2 Mehefin 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*4 Mehefin 2009*
Yn dod i rym - -	*12 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 6, 15, 15A a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac Atodlen 2 iddi(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'n unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 12 Hydref 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo'n ofynnol i gyflogwr perthnasol neu asiant ddarparu gwybodaeth i'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol o dan adran 35, 36 neu 39 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**3**) mewn perthynas ag achos athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig, y byddai fel arall yn ofynnol iddynt gyflwyno adroddiad ynghylch y ffeithiau amdanynt o dan reoliad 4(1) neu 5(1) o'r Rheoliadau hyn.

Dirymu

2. Mae Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003(**4**) wedi'u dirymu.

(**1**) 1998 p.30. Mae Atodlen 2 yn gymwys o ran y Cyngor yn rhinwedd adran 9 o Ddeddf 1998. Disodlwyd adran 15 ac mewnosodwyd adran 15A gan baragraff 83 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32) a diwygiwyd y ddwy adran wedi hynny gan baragraffau 5 a 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p.47). I gael ystyr "prescribed" *gweler* adran 43(1) o Ddeddf 1998.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 211 o Ddeddf Addysg 2002 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2006 p.47.

(**4**) O.S. 2003/542 (Cy.76).

Dehongli

3. Ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn y Rheoliadau hyn—

mae i "asiant" yr ystyr a roddir i "agent" gan adran 15A(1) o Ddeddf 1998;

ystyr "athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig" ("*registered teacher* ") yw —

(a) person sydd am y tro wedi'i gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;

(b) person a oedd wedi'i gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998 adeg unrhyw ymddygiad neu dramgwydd honedig ar ei ran; neu

(c) person sydd wedi gwneud cais am gael ei gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;

mae i "cyflogwr perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant employer" gan adran 15(5) o Ddeddf 1998;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr "gwasanaethau" ("*services*") yw gwasanaethau a ddarperir i gyflogwr perthnasol yng Nghymru ac mae'n cynnwys gwasanaethau proffesiynol a gwirfoddol;

ystyr "Pwyllgor" ("*Committee*") yw Pwyllgor Ymchwilio, Pwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol neu Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a sefydlwyd o dan Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001(**5**);

ystyr "Pwyllgor Ymchwilio" ("*Investigating Committee*") yw pwyllgor a sefydlwyd o dan reoliad 3(1) o Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001; ac

ystyr "trefniadau" ("*arrangements*") yw trefniadau o'r math y cyfeirir atynt yn adran 15A(1) o Ddeddf 1998 i weithiwr sy'n athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig wneud gwaith yng Nghymru.

Adroddiadau cyflogwr

4.—(1) O ran cyflogwr perthnasol—

(a) pan fo wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig ar sail —

(i) camymddygiad;

(ii) anghymhwysedd proffesiynol; neu

(iii) collfarniad am dramgwydd perthnasol o fewn ystyr "relevant offence" ym mharagraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 1998; neu

(b) pan allai fod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig ar sail o'r fath pe na bai'r athro neu'r athrawes wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny,

rhaid i'r cyflogwr gyflwyno i'r Cyngor adroddiad am ffeithiau'r achos a darparu'r holl wybodaeth a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen ac sydd ar gael i'r cyflogwr mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes.

(2) Rhaid i'r Cyngor drefnu bod yr holl wybodaeth a ddarperir iddynt o dan y rheoliad hwn ar gael i Bwyllgor Ymchwilio.

Adroddiadau asiant

5.—(1) O ran asiant—

(**5**) O.S. 2001/1424 (Cy.99).